



Gosber ar Gân


Dygwyl Saint a Merthyron Cymru

19 Tachwedd 2023 am 3.30pm

Choral Evensong


The Festival of the Saints and Martyrs of Wales

19 November 2023 at 3.30pm




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



*Croeso i
Gadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor.*

*Welcome to
Saint
Deiniol's
Cathedral in
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnull o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

You stand now where
Deiniol stood almost a
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he
gathered around him a
community of faith, hope
and love, and raised
around it a hazel fence—
the original **bangor**—for
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,
too, will be embraced
here by the same faith,
hope and love that we
proclaim and live by
today.

Yn y Gosber At Evensong

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachau hynafol i ffurfio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwranddo ar lithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrol o'r Efyngyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Mae gweddi ar gân ac ar goedd, a sain yr anthem, yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fech gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.

At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). Sung and spoken prayer, and the music of an anthem, draw us heart and mind to God.


During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in green type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

Buchedd Bangor is our magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.



Trefn Order



Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch | We stand as the bell is rung



Cynnull *Gathering*

Deisyfiadau *Preces*

Ŵ ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.
℞ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

Ŵ ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.
℞ O Grist, dy ras yw'n golud.

Ŵ Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,
ac i Dduw'r Ysbryd Glân,
℞ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;
yn oes oesoedd. Amen.

Ŵ Molwch yr lôr.
℞ Addolwn ein Duw.

Translation

Ŵ ✕ O Lord, open thou our lips. ℞ And our mouth shall shew forth thy praise. Ŵ ✕ O God, make speed to save us. ℞ O Lord, make haste to help us. Ŵ Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost. ℞ As it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen. Ŵ Praise ye the Lord. ℞ The Lord's name be praised.

Geiriau | Words

Addasiad cyfoes a chyd-destunol o Saesneg y **Llyfr Gweddi Gyffredin** (1662) yw'r Gymraeg | The Welsh-language text is a contemporary and contextualized adaptation of the English of the **Book of Common Prayer** (1662)

Cerddoriaeth | Music

Herbert Sumsion (1899-1995)

Brawddeg *Sentence*

"Y mae dy holl waith yn dy foli, O Dduw, a'th saint yn dy fendithio."

Translation

"All your works praise you, O God, and your faithful servants bless you."

Emyn Hymn



Holl nerthoedd nef, angelion, saint,
tylwythau daear las,
cydgenwch newydd gân o fawl
am waredigol ras.

Y gras ym Gronai'n fôr didrai
nes llenwi mynwes Duw,
cyn gosod seiliau bryniau'r byd,
at euog ddynol ryw.

Y gras anfonai'r Priod Fab
i barthau isa'r llawr,
l'n codi o'r dyfnderau i'r lan
i wynfyd nefoedd fawr.

Pan ddelo'r brynedigol dorf
yn iach i ben eu taith,
eu cân fydd am achubol ras
i dragwyddoldeb maith.

Translation

All ye powers of heaven, angels, saints, tribes of the blue-green earth, sing together a new song of praise for delivering grace. ¶ The grace would collect as an unebbing sea until filling the bosom of God, before setting the foundations of the world, towards guilty human-kind. ¶ The grace would send the Bride-groom to the lowliest regions of the earth, to raise us up from the depths to the bliss of great heaven. ¶ When the redeemed throng comes whole to the end of their journey, their song will be about saving grace for a vast eternity.

Geiriau | Words

Gwilym Hiraethog (William Rees; 1802-1883)

Cerddoriaeth | Music | "St Peter"

Alexander Reinagle (1756-1809)



Gair Word

Salmyddiaeth Psalmody

O God, you have been our refuge from one generation to another.

Before the mountains were brought forth, or the land and the earth were born, from age to age you are God.

You turn us back to the dust and say, "Go back, O child of earth."

For a thousand years in your sight are like yesterday when it is past and like a watch in the night.

You sweep us away like a dream; we fade away suddenly like the grass.

In the morning it is green and flourishes; in the evening it is dried up and withered.

For we consume away in your displeasure; we are afraid because of your wrathful indignation.

Our iniquities you have set before you and our secret sins in the light of your countenance.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

Salm | Psalm 90:1-8
Cerddoriaeth | Music
Thomas Purcell (c.1630-1682)

Llith Lesson

Here begins the seventh verse of the first chapter of the Book of the Prophet Zephaniah.

Thus says the Holy One: Be silent before God! For the day of the Holy One is at hand; the Living One has prepared a sacrifice, he has consecrated his guests. At that time I will search Jerusalem with lamps, and I will punish the people who rest complacently on their dregs, those who say in their hearts, "The Eternal One will not do good, nor will he do harm." Their wealth shall be plundered, and their houses laid waste. Though they build houses, they shall not inhabit them; though they plant vineyards, they shall not drink wine from them. The great day of the Holy One is near, near and hastening fast; the sound of the day of the Living One is bitter, the warrior cries aloud there. That day will be a day of wrath, a day of distress and anguish, a day of ruin and devastation, a day of darkness and gloom, a day of clouds and thick darkness, a day of trumpet blast and battle cry against the fortified cities and against the lofty battlements. I will bring such distress upon people that they shall walk like the blind; because they have sinned against the Eternal One, their blood shall be poured out like dust, and their flesh like dung. Neither their silver nor their gold will be able to save them on the day of the Holy One's wrath; in the fire of his passion the whole earth shall be consumed; for a full, a terrible end he will make of all the inhabitants of the earth.

Here ends the First Lesson.

Seffaneaia | Zephaniah 1:7, 12-18

Codwn ar ein traed | We stand

Magnificat



My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Gwasanaeth Hwyl yn B leiaf | Evening Service in B minor,
Herbert Sumsion (1899-1995)

Eisteddwn | We sit

Yma y mae yn dechrau pedwaredd adnod ar ddeg pumed bennod ar hugain yr Efengyl yn ôl Sant Mathew.

Bryd hynny: Dywedodd Iesu at ei ddisgyblion: "Y mae fel dyn a oedd yn mynd oddi cartref ac a alwodd ei weision a rhoi ei eiddo yn eu gofal. I un fe roddodd bum cod o arian, i un arall ddwy, i un arall un, i bob un yn ôl ei allu, ac fe aeth oddi cartref. Ar unwaith aeth yr un a dderbyniodd bum cod a masnachu â hwy, ac fe enillodd atynt bump arall. Felly hefyd enillodd yr un a gafodd ddwy god ddwy arall atynt. Ond y sawl a dderbyniodd un god, aeth ef ymaith a chloddio twll yn y ddaear a chuddio arian ei feistr. Ymhen cryn dipyn o amser daeth meistr y gweision hynny yn ôl ac fe adolygodd eu cyfrifon hwy. Daeth yr un a dderbyniodd bum cod a chyflwyno iddo bump arall. 'Meistr,' meddai, 'rhoddaist bum cod o arian yn fy ngofal; dyma bum cod arall a enillais i atynt.' 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon,' meddai ei feistr wrtho, 'buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.' Yna daeth yr un â'r ddwy god, a dywedodd, 'Meistr, rhoddaist ddwy god o arian yn fy ngofal; dyma ddwy god arall a enillais i atynt.' Meddai ei feistr wrtho, 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon; buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.' Yna daeth yr un oedd wedi derbyn un god, a dywedodd, 'Meistr, gwyddwn dy fod yn ddyn caled, yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Yn fy ofn euthum a chuddio dy god o arian yn y ddaear. Dyma i ti dy eiddo yn ôl.' Atebodd ei feistr ef, 'Y gwas drwg a diog, yr oeddit yn gwybod, meddi, fy mod yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Dylit felly fod wedi gosod fy arian yn y banc, a buasai fy eiddo wedi ennill llog erbyn i mi ddod i'w hawlio. Felly cymerwch y god o arian oddi arno a rhowch hi i'r un a chanddo ddeg cod. Oherwydd i bawb y mae ganddo y rhoddir, a bydd ar ben ei ddigon, ond oddi ar yr hwn nad oes ganddo fe gymerir hyd yn oed hynny sydd ganddo. A bwriwch y gwas diwerth i'r tywyllwch eithaf; bydd yno wylo a rhincian dannedd.'"

Yma y terfyn yr Ail Lith.

Translation

At that time: Jesus said to his disciples, "It is as if a man, going on a journey, summoned his slaves and entrusted his property to them; to one he gave five talents, to another two, to another one, to each according to his ability. Then he went away. The one who had received the five talents went off at once and traded with them, and made five more talents. In the same way, the one who had the two talents made two more talents. But the one who had received the one talent went off and dug a hole in the ground and hid his master's money. After a long time the master of those slaves came and settled accounts with them. Then the one who had received the five talents came forward, bringing five more talents, saying, 'Master, you handed over to me five talents; see, I have made five more talents.' His master said to him, 'Well done, good and trustworthy slave; you have been trustworthy in a few things, I will put you in charge of many things; enter into the joy of your master.' And the one with the two talents also came forward, saying, 'Master, you handed over to me two talents; see, I have made two more talents.' His master said to him, 'Well done, good and trustworthy slave; you have been trustworthy in a few things, I will put you in charge of many things; enter into the joy of your master.' Then the one who had received the one talent also came forward, saying, 'Master, I knew that you were a harsh man, reaping where you did not sow, and gathering where you did not scatter seed; so I was afraid, and I went and hid your talent in the ground. Here you have what is yours.' But his master replied, 'You wicked and lazy slave! You knew, did you, that I reap where I did not sow, and gather where I did not scatter? Then you ought to have invested my money with the bankers, and on my return I would have received what was my own with interest. So take the talent from him, and give it to the one with the ten talents. For to all those who have, more will be given, and they will

have an abundance; but from those who have nothing, even what they have will be taken away. As for this worthless slave, throw him into the outer darkness, where there will be weeping and gnashing of teeth.”

Mathew | Matthew 25:14-30

Codwn ar ein traed | We stand

Nunc Dimittis



Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Gwasanaeth Hwyrrol yn B leiaf | Evening Service in B minor,
Thomas Tertius Noble (1867-1953)

Parhawn ar ein traed, a throi i wynebu'r Dwyrain | We stand, turning to face East

Credo'r Apostolion **Apostles' Creed**

I believe in God

the Father Almighty,

Maker of heaven and earth:

and in Jesus Christ his only Son our Lord,

who was conceived by the Holy Ghost,

born of the Virgin Mary,

suffered under Pontius Pilate,

was crucified, dead, and buried;

he descended into hell;

the third day he rose again from the dead,

he ascended into heaven,

and sitteth on the right hand of God the Father Almighty;

from thence he shall come to judge

the quick and the dead.

I believe in the Holy Ghost;

the holy catholic Church;

the communion of saints;

the forgiveness of sins;

✠ the Resurrection of the body,

and the Life everlasting.

Amen.

Parhawn ar ein traed, gan droi o'r Dwyrain | We stand, turning from the East

Gweddïau Prayers

Litani Leiaf Lesser Litany

Ŵ Gras a thangnefedd.

℞ Yng nghariad Iesu.

Gweddïwn.

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Trugarhâ, Dduw y Cread.

Trugarhâ, Dduw ein Gwared.

Trugarhâ, Dduw pob Cariad.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Ŵ O lôr, bydd drugarog dy olwg.

℞ A rho i'n waredigaeth.

Ŵ O Dduw, cofia'n Llyw.

℞ A thaena'th adain dirion dros aelwydydd ein gwlad.

Ŵ Gwisg d'Eglwys wir ag iawnder ar dy lun.

℞ A gwna ni'n etifeddion llonder.

Ŵ Bydd dryw, Dduw'r holl Gread.

℞ A moes fendith ar dy waith.

Ŵ Boed hedd yn ein dydd, O Dduw.

℞ A doed awennau cymod, uwch dial a phoen, yn beraidd ar ein clyw.

Ŵ Am galon lân o'n mewn hiraethwn.

℞ A chalon wrth galon cwyd fry lân gân.

Translation

℣ The Lord be with you. **℟** And with thy spirit. Let us pray. Lord, have mercy upon us. Christ, have mercy upon us. Lord, have mercy upon us. Our Father, who art in heaven, hallowed be thy Name, thy kingdom come, thy will be done, on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread; and forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us; and lead us not into temptation, but deliver us from evil. Amen. **℣** O Lord, shew thy mercy upon us; **℟** And grant us thy salvation. **℣** O Lord, save the King; **℟** And mercifully hear us when we call upon thee. **℣** Endue thy ministers with righteousness; **℟** And make thy chosen people joyful. **℣** O Lord, save thy people; **℟** And bless thine inheritance. **℣** Give peace in our time, O Lord; **℟** Because there is none other that fighteth for us, but only thou, O God. **℣** O God, make clean our hearts within us; **℟** And take not thy Holy Spirit from us.

Hollalluog Dduw, sy'n galw dy etholedigion o bob cenedl, ac yn dangos dy ogoniant yn eu buchedd: gweddïwn arnat ganiatáu i ni, gan ddilyn esiampl Saint a Merthyrion Cymru, a chael ein cyfnerthu gan eu cymdeithas, fod yn ffrwythlon mewn gweithredoedd da, er mawl i'th Enw sanctaidd; trwy Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

O God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee, we, being defended from the fear of our enemies, may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

Lighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. Amen.

Translation

Almighty God, who calls your elect from every nation, and shows forth your glory in their lives: grant that, following the example of the Saints and Martyrs of Wales and strengthened by their fellowship, we may be fruitful in good works to the glory of your Name; through Jesus Christ our Saviour.

Priodolion dros y tudalen | Attributions over the page

Geiriau | Words

Addasiad cyfoes a chyd-destunol o Saesneg y **Llyfr Gweddi Gyffredin** (1662) yw'r Gymraeg | The Welsh-language text is a contemporary and contextualized adaptation of the English of the **Book of Common Prayer** (1662)

Cerddoriaeth | Music

Herbert Sumsion (1899-1995)

Gweddi Waddol **Foundation Prayer**

Deiniol, dad a tharddiad, a godaist fangor fawr yn gysgod a noddfa, a'th godwyd â'th fagl i fugeilio Gwynedd Maelgwn gynt; cwyd i'r uchelfannau weddïau aelwyd d'olynydd yn y fangre hon, fel y cyfyd gwawrddydd ffydd, gobaith a chariad yn ein calonnau'n fythol.

Amen.

Translation

O Deiniol, our forebear and founder, who raised a great bangor for shelter and sanctuary, and who was raised with your crozier to shepherd Maelgwn's Gwynedd in those ancient days: raise to the heavenly courts the prayers of your successor's household in this sacred place, that our hearts may awaken to faith, hope and love eternally. Amen.

Eisteddwn | We sit

Anthem

O Lorde, the maker of al thing,
we pray thee nowe in this evening
us to defende through thy mercy,
from al deceite of our enemy.

Let neither us deluded be,
good Lorde, with dreame or phantasy;
our hearts waking in thee thou kepe
that we in sinne fal not on slepe.

O Father, throughe thy blessed Son,
grant us this oure petition,
to whom, with the Holy Ghost alwaies,
in heaven and yearth be laude and praise..

Geiriau | Words

Harri | Henry VIII (1491-1547)

Cerddoriaeth | Music

John Joubert (1927-2019)

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Gweddïau Prayers

Ceir gweddïau | Prayers are said

Ar derfyn y gweddïau | The prayers conclude

Rhagflaena ni, O Dduw, â'th ragorol ras, a hyrwydda ni â'th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o'u cychwyn i'w cwblhau ynot ti, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael, gan dy drugaredd, lawnder bywyd; trwy Iesu Grist ein Gwardwr.

Amen.

Translation

Go before us, O God, with thy most gracious favour, and further us with thy continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in thee, we may glorify thy holy Name, and by thy mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour. Amen.

**The ✠ grace of our Lord Jesus Christ,
and the love of God,
and the fellowship of the Holy Ghost,
be with us all evermore.**

Amen.

Codwn ar ein traed | We stand

Ymadael *Departing*

Emyn Hymn



For all the saints who from their labours rest,
who thee by faith before the world confessed,
thy name, O Jesu, be for ever blest.
Alleluia.

Thou wast their rock, their fortress, and their might;
thou, Lord, their Captain in the well-fought fight;
thou, in the darkness, still their one true light.
Alleluia.

Fendigaid gymun, undeb dwyfol ddrud,
ni yn ein gwendid, hwythau'n wyn eu byd,
ac eto ynot ti mae pawb ynghyd:
Haleliwia!

The golden evening brightens in the west;
soon, soon to faithful warriors comes their rest:
sweet is the calm of paradise the blest.
Alleluia.

But lo, there breaks a yet more glorious day;
the saints triumphant rise in bright array:
the King of glory passes on his way.
Alleluia.

**O fôr a thir er pob rhyw hir wahân,
drwy byrth o berl daw rhif y tywod mân,
a'u cân i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân:
Haleliwia!**

Translation

*O blest communion, fellowship divine! We feebly
struggle, they in glory shine; yet all are one in
thee, for all are thine. Alleluia, Alleluia. ☩ From
earth's wide bounds, from ocean's farthest coast,
through gates of pearl streams in the countless
host, singing to Father, Son, and Holy Ghost:
Alleluia, Alleluia.*

Geiriau | Words

William Walsham How (1823-1897)

Cyfieithiad | Translation

Thomas Gwynn Jones (1871-1949)

Cerddoriaeth | Music | "Engleberg"

Charles Villiers Stanford (1852-1924)

Parhawn ar ein traed | We remain standing

Bendith Blessing

Bydded i Dduw, ffynhonnell pob daioni, inni'n lwybr a chydymaith ar y daith, er mwyn inni ofalu am greadigaeth dda Duw a dwyn ffrwyth cyfiawnder yn ein buchedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Translation

May God, the source of all goodness, be our pilgrim path and guide, that we may care for God's good creation and bring forth in our lives the fruits of righteousness; and the blessing of God Almighty, the Father, ✠ the Son and the Holy Ghost, be among you and remain with you always. Amen.

Gollyngiad **Dismissal**

Ŷ Gras a thangnefedd.

℞ Yng nghariad Iesu.

Ŷ Bendithiwn yr Iŵr.

℞ Diolch a fo i Dduw.

Translation

Ŷ *The Lord be with you.* ℞ *And with thy spirit.*

Ŷ *Let us bless the Lord.* ℞ *Thanks be to God.*

Cerddoriaeth | Music


Edward Woodall Naylor (1867-1934)

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael | We remain standing until the ministers have departed

Offrymddarn ar yr organ | Organ voluntary

Te lucis ante terminum, Marcel Dupré (1886-1971)

Hysbys



Adfent 2023

Ysgrifenna'r Is-Ddeon:

Mae tymor yr Adfent bron â chyrraedd, ac mae'n Sul yr Adfent eleni ar 3 Rhagfyr 2023. Mae hi'n rhyw deimlo fel y Nadolig eisoes yn rhai o siopau'r Stryd Fawr, ond mae tymor yr Adfent yn caniatáu amser cysegredig i ni baratoi ar gyfer gwir ddirgeledd yr Ŵyl, ac i fyfyrion ar arwyddocâd dyfodiad Duw i'n plith ar yr orig dywyllaf ac yn niniweidrwydd bregus baban Bethlehem.

Gwn y bydd dirgeledd ac ystyr y Nadolig a'r baban Iesu, sydd inni'n gwir a'n hunig heddi, ar flaen y meddwl eleni, wrth inni gynnal ein byd bregus a'i wyll mewn gweddi ger bron Duw.

Cynhelir ein Defod Hwyrrol ar Sul yr Adfent yng ngolau cannyll am 6.00pm ar 3 Rhagfyr. Bydd y Côr yn canu symudiadau agoriadol mawreddog *Gwynnos* Sergei Rachmaninoff, wrth i ni, mewn cerddoriaeth, carol, gair a gweddi, baratoi ar gyfer llewyrch datguddiadol ein "Duw gyda ni."

Ymunwch â ni am 6.00pm ar Sul yr Adfent, a gwahoddwch eraill i ddod gyda chi am ennyd anghenus a phrydferth o fawl a gweddi.

Rhun ap Iorwerth

Fel rhan o alwedigaeth y Gadeirlan i ymgysylltu â chymuned a chymdeithas, nos Lun nesaf rydym yn croesawu Rhun ap Iorwerth,

arweinydd newydd Plaid Cymru, i'r Gadeirlan. O 6.30pm tan 7.30pm, bydd yn sgwrsio â'r Is-Ddeon ac aelodau'r gynulleidfa am ein helbul cenedlaethol a rhyngwladol presennol, a bydd yn myfyrion hefyd ar ei alwedigaeth ei hun wrth i'w arweinyddiaeth o'r Blaid ddechrau.

Digwyddiad rhad ac am ddim.

Bydd hon yn sesiwn ddwyieithog, gyda chyfle i gyfranwyr siarad yn Gymraeg a Saesneg, a gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Mae'r digwyddiad hwn yn dilyn ein gwasanaeth Corawl Evensong, sy'n dechrau am 5.30pm. Cynhelir derbyniad gwin o 6.15pm, ac ar ôl y digwyddiad.

Anrhegion Nadolig i'r Banc Bwyd

Y llynedd bu inni gasglu a lapio rhoddion heb fod yn fwyd fel anrhegion Nadolig i'r rhai sy'n defnyddio Banc Bwyd y Gadeirlan. Gwerthfawrogwyd yr anrhegion yn fawr a hoffem roi anrhegion eto eleni.

Mae oedolion sengl, yn enwedig dynion, yn aml yn cael eu hanwybyddu, felly rydym yn canolbwyntio ar roddion ar gyfer y grŵp hwn.

Mae awgrymiadau ar gyfer y math o eitemau a fyddai fwyaf defnyddiol i oedolion yn cynnwys: hetiau, sgarffiau, menig, teits a sanau trwchus, dillad isaf thermol, siwmperi / "fleece" cynnes; pethau ymolchi fel siampŵ, diaroglydd, hufen dwylo; dyddiaduron / llyfrau nodiadau bach sylfaenol, beiros, llyfrau pos, waledi. Gofynnwn i eitemau dillad fod yn newydd, ac i nwyddau ymolchi beidio a chynnwys raseli neu eitemau sy'n cynnwys alcohol, ac y gallent fod uwchlaw'r ystod sylfaenol o nwyddau i'w gwneud yn fwy arbennig.

Bydd tîm o stiwardiaid y Gadeirlan yn gweithio'n galed i lapio'r anrhegion, ond byddai rhoddion o fagiau anrhegion Nadolig canolog / mawr, papur lapio a thagiâu anrheg yn cael eu gwerthfawrogi.

Hoffem gael rhoddion erbyn dydd Sul 26 Tachwedd, ac yn gynt na hynny os yn bosibl, i roi amser i'r anrhegion gael eu dosbarthu cyn y Nadolig.

Cinio Dewch a Rhannu

Cynhelir ein Cinio Dewch a Rhannu nesaf am 12.15pm, yn dilyn y Choral Holy Eucharist, ar 17 Rhagfyr.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

23 Tachwedd | Tom Castle | Tenor

30 Tachwedd | Alice Caldwell | Pibgorn

Yr wythnos

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00am Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

26 Tachwedd | Dygwyl Crist y Brenin

26 November | The Festival of Christ the King

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Yr Is-Ddeon yn pregethu ar y thema **Crist ar ei Orsedd Ogoneddus**

Offeren yn G leiaf, Vaughan Williams; Antiffon, Vaughan Williams; Diweddglo o Symffoni rhif 1, Vierre

11.00am Choral Holy Eucharist

The Archdeacon of St Helens & Warrington preaching on the theme **Christ on his Throne of Glory**

Mass in G, Schubert; Lift up your heads, Handel; Procession, Ives

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Leighton; Ail Wasanaeth Hwyrrol | Second Evening Service, Leighton; Let all the world, Leighton; Rhagarweiniad ac Allegro | Introduction and Allegro, Guilmant


Ein gweddi

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Bill Lovelock; Goran Sluiter, Caitriona Carroll; Sacha Cook; John Parry Jones; Carolyn Retallick

A fu farw'n diweddar Brian Brittle; Vera Watson; Jo Scutt

Gŵyl goffa Catherine Mavis Jones (19)

Notices



Advent 2023

The Sub-Dean writes:

The season of Advent is almost upon us, and Advent Sunday falls this year on 3 December 2023. It may feel like Christmas already in some of the High Street shops, but the season of Advent allows us hallowed time to prepare for the mystery of Christmas, and to ponder the significance of the coming of God into our midst at the darkest hour and in the vulnerability of the child of Bethlehem.

The mystery and meaning of Christmas and of the Christ child, who is our true and only peace, should be at the fore of our minds this year, as we hold our vulnerable, benighted world in prayer.

Our Evening Liturgy of Advent Sunday will take place by candlelight at 6.00pm on the evening of 3 December. The Choir will sing the majestic opening movements of Sergei Rachmaninoff's *Vespers*, as we, in music, carol, sacred word and prayer, prepare for and ponder the revelatory light of "God with us".

Please join us at 6.00pm on Advent Sunday, and please invite others to come along with you to a needful, beautiful time of worship and prayer.

Rhun ap Iorwerth

As part of the Cathedral's vocation to engage with community and society, this coming Monday evening we welcome Rhun ap Iorwerth,

the new leader of Plaid Cymru, to the Cathedral. From 6.30pm until 7.30pm, he will be in conversation with the Sub-Dean and audience members about our current national and international turmoil, and will be reflecting also on his own vocation as his leadership of Plaid begins.

Free entry.

This will be a bilingual session, with the opportunity for contributors to speak in Welsh and English, and with simultaneous translation facilities.

This event follows our service Choral Evensong, which begins at 5.30pm. A drinks reception takes place from 6.15pm, and after the event.

Christmas gifts for the Cathedral Foodbank

Last year we gathered and gift-wrapped non-food donations as Christmas gifts for those who use the Cathedral Foodbank. The gifts were much appreciated and we would like to give gifts again this year.

Single adults, particularly men, are often overlooked, so we are concentrating on donations for this group.

Suggestions for the sort of items that would be most useful for adults include: hats, scarves, gloves, thick tights and socks, thermal underwear, warm jumpers / fleeces; toiletries such as shampoo, deodorant, hand cream; basic small diaries / notebooks, pens, puzzle books, wallets. We ask that clothing items are new, and that toiletries not include razors or items containing alcohol, and might be above the basic range if possible to make them more special.

A team of Cathedral stewards will work hard to wrap the gifts, but donations of medium / large Christmas gift bags, wrapping paper and gift tags would be appreciated.

We would like to have donations by Sunday 26 November, and even earlier if possible, to give time for the gifts to be distributed before Christmas.

Bring and Share Lunch

Our next Bring & Share Lunch will take place at 12.15pm, following the Choral Holy Eucharist on 17 December.

Coffee-Break Recitals

Thursdays

11.15am for 45 minutes

Tea, coffee and cake from 10.45am

23 November | Tom Castle | Tenor

**30 November | Alice Caldwell |
Recorder**

This week

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00am Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun |
Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

26 Tachwedd | Dygwyl Crist y Brenin

26 November | The Festival of Christ the King

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Yr Is-Ddeon yn pregethu ar y thema
Crist ar ei Orsedd Ogoneddus

Offeren yn G leiaf, Vaughan Williams;
Antiffon, Vaughan Williams; Diweddgl
o Symffoni rhif 1, Vierre

11.00am Choral Holy Eucharist

**The Archdeacon of St Helens &
Warrington preaching** on the theme
Christ on his Throne of Glory

Mass in G, Schubert; Lift up your
heads, Handel; Procession, Ives

3.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Ymatebion | Responses, Leighton; Ail
Wasanaeth Hwyrrol | Second Evening
Service, Leighton; Let all the world,
Leighton; Rhagarweiniad ac Allegro |
Introduction and Allegro, Guilmant

Our prayers

The sick Joy Levine, priest; John
Watkin Jones; Bill Lovelock; Goran
Sluiter, Caitriona Carroll; Sacha Cook;
John Parry Jones; Carolyn Retallick

The recently departed Brian Brittle;
Vera Watson; Jo Scutt

Year's mind Catherine Mavis Jones
(19)



Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur swydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael eiddo ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddî Gyffredin (1662 ac 1984)**. Mae'r llythoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible ac Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Mae'r salmyddiaeth o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Darlun clawr

Ar y clawr ceir rhan o un o gyfres o ddyfrlliwiau o gerffluniau o seintiau Llydewig gan Sydney Curnow Vosper (1866-1942), peintiwr yr enwog "Salem". Yma gwelir Gildas Sant, un o gyfoeswr Deiniol, a dreuliodd amser yn yr Alban, Cymru a Llydaw ac a oedd yn awdur ac yn athro o fri.

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed online, and the recording made available thereafter on the Cathedral's YouTube channel. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662 and 1984)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The psalmody is that of **The Saint Helena Breviary** (2019).

Cover image

The cover image a detail of one of a series of watercolours of statues of Breton saints by Sydney Curnow Vosper (1866-1942), painter of the famous "Salem" watercolour. Depicted here is Saint Gildas, a contemporary of Deiniol, who spent time in Scotland, Wales and Brittany and was a renowned writer and teacher.